# Gweinyddu deddfwriaeth amgylcheddol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweinyddu deddfwriaeth amgylcheddol. Gallai hyn fod o fewn swyddfa cynllunio llywodraeth leol neu sefydliad arbenigol arall sydd â’r cyfrifoldeb hwn ac awdurdod i wneud penderfyniadau.

Mae’n rhaid i chi allu gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol perthnasol ac ymgynghori â chydweithwyr ac arbenigwyr, fel bo angen, i gyflawni canlyniad.

Mae’n rhaid i chi fod yn ymwybodol o bwysigrwydd fflora a ffawna i’r amgylchedd.

Mae’r safon hon yn ymwneud â gorchmynion cadw a gorchmynion cadwraeth, trwyddedau cwympo, gwarchod yr amgylchedd, amwynderau a chynefinoedd, ac ati, ynghyd â chyfyngiadau cynllunio yn gysylltiedig â gorchmynion cadwraeth.

Mae’r safon hon i’r rhai sydd ag awdurdod i weinyddu deddfwriaeth amgylcheddol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dilyn proses osod i weinyddu'r ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n gysylltiedig â cheisiadau ac ymholiadau
2. cadw cofnodion cywir a chyflawn i nodi a chofnodi'r camau yn y broses
3. ceisio'r caniatâd priodol, lle bo angen, i archwilio safleoedd
4. cadarnhau bod y broses yn dilyn yr amserlenni gweithredu gofynnol
5. cydweithio ag adrannau, cydweithwyr ac awdurdodau eraill, yn ôl yr angen
6. cadarnhau bod dogfennaeth yn bodloni'r gofynion statudol angenrheidiol
7. delio ag unrhyw apeliadau yn unol â gofynion statudol
8. delio â cheisiadau i gyflawni gwaith o fewn yr amserlenni gofynnol
9. ceisio cyngor a chymorth, lle bo angen

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. yr angen am gael system effeithiol i gofnodi prosesau gweinyddu deddfwriaeth amgylcheddol
2. pwysigrwydd cadw cofnodion cywir a chyflawn
3. pwysigrwydd trefnu mynediad ar gyfer archwiliadau safle gyda'r bobl briodol
4. yr angen am gynnwys yr awdurdodau perthnasol sy'n rhoi cydsyniad neu ganiatâd
5. pwysigrwydd cwblhau dogfennaeth i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol
6. y gofynion statudol a'r gweithdrefnau ar gyfer apeliadau
7. yr amserlenni sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r ddeddfwriaeth amgylcheddol
8. ffynonellau gwybodaeth a chyngor pan fydd angen eglurhad
9. goblygiadau a phwysigrwydd deddfwriaeth diogelu data

## Geirfa

**Awdurdodau perthnasol:** Swyddogion Cynllunio, y Comisiwn Coedwigaeth ac adrannau'r llywodraeth, fel y bo'n briodol i'r ddeddfwriaeth, a sefydliadau cyfatebol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Prosesau cofnodi gwarchod coed:** Gorchmynion Cadw Coed (TPOs) a choed mewn ardaloedd cadwraeth, trwyddedau cwympo, gwarchod amgylcheddol, gwarchod amwynderau, gwarchod cynefinoedd

Gweinyddu deddfwriaeth amgylcheddol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANTw73 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Coedyddiaeth a choedwigaeth |
| **Cyfres/Set** | Gwaith coed |
| **Geiriau Allweddol** | coed; deddfwriaeth; amgylcheddol;  gwarchod |